

PEEL: Effeithlonrwydd yr heddlu 2015

Archwiliad o Heddlu Dyfed-Powys



Hydref 2015

© HMIC 2015

ISBN: 978-1-78246-916-2

www.justiceinspectrates.gov.uk/hmic

Cynnwys

Trosolwg – Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?.....	4
Dyfarniad cyffredinol.....	4
Crynodeb.....	4
Rhifau'r heddlu.....	7
Cyflwyniad.....	9
Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?	10
Pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw amdano?	10
Pa mor dda mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw?.....	10
Pa mor dda mae gwasanaethau'r heddlu'n bodloni'r galw gan y cyhoedd?.....	11
Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli galw?.....	13
Pa mor dda mae'r heddlu yn monitro a deall allbynnau, canlyniadau a chostau?.	14
Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio dulliau gwaith newydd i wella gwasanaethau?	14
Crynodeb o ganfyddiadau.....	15
Pa mor dda mae model gweithlu presennol yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?	16
Pa mor dda mae model gweithlu rhagweledig yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?.....	18
Crynodeb o ganfyddiadau.....	19
Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?	20
A yw'r heddlu wedi cyflawni ei ofynion arbedion a chydbwysu'r gyllideb ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant a 2014/15?	20
A yw'r heddlu wedi cydbwysu'r gyllideb ar gyfer 2015/16?	21
Sut mae'r heddlu wedi uchafu cyfleoedd cyllido eraill?.....	22
Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli gwariant?.....	23

Pa mor dda mae cynlluniau ariannol yr heddlu yn adlewyrchu'r amcanion a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a throseddu'r PCC?	25
Pa mor dda mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth ariannol amserol a pherthnasol i swyddfa'r comisiynydd heddlu a throseddu (OPCC) ac a ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol?	25
Faint mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer arbedion pellach posibl wedi eu datblygu?26	
Crynodeb o ganfyddiadau.....	27
Atodiad A – Dyfarniadau HMIC	28
Atodiad B – Rhagor o wybodaeth ynghylch y data yn ffigurau 3, 4, 5 a 7.....	29

Trosolwg – Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd?

Dyfarniad cyffredinol¹



Angen gwelliant

Canfu HMIC bod Heddlu Dyfed-Powys yn rhannol barod i wynebu ei heriau ariannol yn y dyfodol. Mae'n gwella ei ddealltwriaeth o'r galwadau ar ei wasanaethau ac ar hyn o bryd yn gallu ymateb i bob trosedd. Mae'n buddsoddi mewn technoleg i wella effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae HMIC yn pryderu wrth i adnoddau leihau yn y dyfodol, nad yw'r heddlu wedi sicrhau cynnydd digonol o ran cynllunio sut fydd yn gallu parhau i ddarparu plismona effeithiol gyda llai o staff; neu sut y bydd yn delio â rhywfaint o'r ansicrwydd ariannol mae'n wynebu. Yn rhaglen archwiliad gwerthfawrogi'r heddlu'r llynedd, a ystyriodd sut oedd heddluoedd wedi bodloni her y cyfnod adolygiad o wariant cyntaf, dyfarnwyd bod Heddlu Dyfed-Powys yn dda.

Crynodeb

Mae HMIC yn barnu bod Heddlu Dyfed-Powys angen gwelliant. Mae gan yr heddlu adnoddau ar hyn o bryd i fodloni galw ac mae'n gallu mynychu pob trosedd. Fodd bynnag, bydd lleihad pellach yn niferoedd swyddogion yr heddlu yn gofyn i'r heddlu ddeall y galw am ei wasanaethau yn y dyfodol yn well a rheoli ei adnoddau yn fwy effeithiol.

Mae HMIC yn hapus gydag uchelgais ymagwedd Heddlu Dyfed-Powys i ddefnyddio technoleg newydd i wella effeithlonrwydd a darparu gwell gwasanaethau.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rheoli ei arbedion gyda lleihad bychan yn y nifer o swyddogion yr heddlu, ers 2010. Ychydig iawn mae wedi newid sut mae'n cyflawni plismona rheng flaen dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae HMIC yn pryderu er gwaethaf cynllunio gostyngiadau pellach yn niferoedd swyddogion yr heddlu a staff, nad yw'r heddlu wedi datblygu model gweithlu ar gyfer y dyfodol eto². Mae newidiadau i faint y gweithlu gwreiddiol wedi eu hysgogi gan gyllid nid gan y gofynion sefydliadol. Mae'r heddlu wedi cael rhaglen dechnoleg ar waith i gefnogi'r cynllun gweithlu; fodd bynnag, nid oedd cynlluniau newid ar gyfer y dyfodol wedi eu datblygu'n dda gan nad oedd dealltwriaeth yr heddlu o alw a phroffilio adnoddau

¹ Rhagorol, Da, Angen gwelliant neu Annigonol – gweler tudalen olaf yr adroddiad ar gyfer diffiniadau.

² Model gweithlu - sut mae'r gweithlu wedi ei reoli; yn achos yr heddlu, mae'n cynnwys swyddogion yr heddlu, er eu bod yn ddeiliaid swydd cwnstabl ac felly nid yn gyflogeion i'w heddluoedd; mae hefyd yn cynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a staff yr heddlu.

wedi ei ddatblygu'n ddigonol i hysbysu'r cynlluniau hyn. Nid yw'n glir sut fydd yr heddlu yn parhau i reoli'r gostyngiadau yn ei gyllideb a chynnal plismona effeithiol.

Mae gan yr heddlu hanes da o gyflawni arbedion hyd yn hyn, ond nid yw'r cynlluniau ar gyfer arbedion rhagweledig ar gyfer tu hwnt i 2015/16 wedi eu datblygu ddigon. Yn ogystal, mae HMIC yn pryderu fod yna nifer o risgiau ac ansicrwydd am incwm yn y dyfodol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys allai olygu nad yw wedi llawn werthfawrogi'r arbedion sydd angen yn y dyfodol ac nad yw'r heddlu wedi gwneud unrhyw gynlluniau at raid i ddelio â'r risgiau hyn.

<p>Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?</p>	<p>Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?</p>	<p>Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?</p>
<p> Da</p>	<p> Angen gwelliant</p>	<p> Angen gwelliant</p>
<p>Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydnabod pwysigrwydd cael gwell dealltwriaeth o alw er mwyn sicrhau y gellir defnyddio adnoddau fwyaf effeithiol i flaenoriaethu ac ymateb i alw. Mae wedi datblygu ymagwedd newydd i ddadansoddi galw, y gobeithir fydd yn darparu dealltwriaeth llawer gwell.</p> <p>Mae'r heddlu yn un o'r ychydig rai yn genedlaethol sy'n dal i anfon ymateb heddlu i bob trosedd. Mae galwadau am wasanaethau heddlu ar draws Dyfed-Powys yn gymharol isel, ond mae penderfyniadau ar y lefelau o adnoddau sydd angen nid yn unig wedi eu hysgogi gan alw, ond hefyd</p>	<p>Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rheoli ei arbedion gyda lleihad bychan yn y nifer o swyddogion yr heddlu, ers 2010. Ychydig iawn mae wedi newid sut mae'n darparu plismona rheng flaen dros y cyfnod hwn. Mae'r heddlu wedi lleihau'r nifer o staff heddlu sy'n darparu gwasanaethau cefnogaeth o gyfran llawer mwy na welwyd mewn heddluoedd eraill. Mae wedi cyflawni'r lleihad hwn trwy sefydlu uned cefnogaeth fusnes sy'n uno'r holl swyddogaethau cefnogaeth fusnes eraill oedd ar wahân yn flaenorol, yn cynnwys cyllid ac AD. Mae disgwyl i staff weithio ar draws ystod eang o</p>	<p>Mae gan Heddlu Dyfed-Powys hanes da o gyflawni'r arbedion gofynnol trwy gydol yr adolygiad gwariant gyda gostyngiad bychan iawn yn niferoedd yr heddlu. Fodd bynnag, mae'r heddlu wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb pob blwyddyn o swm sylweddol, gan gynnwys yn 2014/15. Mae hyn yn dynodi y cafwyd rhywfaint o ddiffyg dealltwriaeth o ran cost bresennol plismona a chyflwyniad cam wrth gam arbedion.</p> <p>Mae'r heddlu wedi gosod cyllideb wedi ei mantoli ar gyfer 2015/16 er gwaethaf toriadau mewn cyllid gan y llywodraeth a'r praesept y</p>

<p>gan yr angen i ddarparu plismona gweladwy ac effeithiol ar draws ardal heddlu eang, wledig gan fwyaf. Mae'r heddlu yn cydnabod ei fod angen gwneud mwy i wella ei reolaeth o alw.</p> <p>Mae gan yr heddlu ffocws cryf ar safbwynt y dioddefwr o wasanaethau'r heddlu, er bod dealltwriaeth fwy cyfyngedig o'r berthynas rhwng costau gwasanaethau a'r canlyniadau maent yn cyflawni.</p> <p>Mae HMIC yn hapus gydag uchelgais ymagwedd Heddlu Dyfed-Powys i ddefnyddio technoleg newydd i wella effeithlonrwydd a darparu gwell gwasanaethau. Mae'r heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu plismona digidol.</p>	<p>wahanol rolau cefnogaeth, yn hytrach nag mewn timau arbenigol.</p> <p>Fodd bynnag, gwelodd HMIC nad yw'r uned newydd hon yn gweithredu yn effeithiol nac effeithlon eto. Mae'r nifer o staff wedi lleihau, ond nid oes gan yr heddlu'r prosesau na'r staff gyda'r ehangder sgiliau sydd angen.</p> <p>Nid yw'r heddlu wedi datblygu model gweithlu dyfodol eto. Mae yna ostyngiadau rhagweledig mewn staff sydd wedi eu nodi fel y rhai sydd eu hangen i gydbwysu'r gyllideb dros y pedair blynedd nesaf. Mae newidiadau i faint y gweithlu gwreiddiol wedi eu hysgogi gan gyllid nid gan y gofynion sefydliadol. Mae gan yr heddlu nifer gyfyngedig o gynlluniau newid. Nid yw'n glir sut fydd yr heddlu yn parhau i reoli'r gostyngiadau yn ei gyllideb a chynnal plismona effeithiol.</p>	<p>dreth gyngor. Mae'n bwriadu canfod yr arbedion sydd angen eleni. Mae'r heddlu'n cydweithredu gyda heddluoedd eraill deheubarth Cymru i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol a gwydn mewn ystod o feysydd. Mae'r heddlu'n gweithio'n dda gyda'r comisiynydd heddlu a throsedd, gan ddatblygu cynlluniau ar y cyd i gyfeirio adnoddau at feysydd blaenoriaeth.</p> <p>Nid yw'r cynlluniau ar gyfer sut fydd yn cyflawni arbedion tu hwnt i 2015/16 wedi eu datblygu'n dda. Bydd arbedion yn cronni o beidio penodi staff newydd wrth i rai adael, ond nid oes cynlluniau o ran sut na ble fydd y toriadau hyn mewn staff yn digwydd na beth fydd yr effaith ar allu'r heddlu i ddarparu plismona effeithiol, cynaliadwy. Yn ogystal, mae HMIC yn pryderu fod yna nifer o risgiau ac ansicrwydd am incwm yn y dyfodol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys allai olygu nad yw wedi llawn werthfawrogi'r arbedion sydd angen yn y dyfodol.</p>
---	---	--

Rhifau'r heddlu



Sefyllfa ariannol

Newid a ragwelir mewn gwariant 2015/16 i 2018/19



Mae'n bwysig nodi bod rhai heddluoedd wedi darparu ffigurau ar gyfer arbedion yr oeddynt wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar y pwynt hwnnw, tra bod eraill wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod cyfan. O ganlyniad, efallai nad yw'r ffigwr arbedion uchod yn adlewyrchu'r arbediad llawn y bydd rhaid i'r heddlu wneud. Defnyddiwyd GRE 2014/15 yma fel llinell sylfaen.



Darparu plismona

Newid arfaethedig yn nifer swyddogion yr heddlu o 31 Mawrth 2015 i 31 Mawrth 2018

Dyfed-Powys Cymru a Lloegr

-5%

-6%

Newid arfaethedig yng nghyfanswm gweithlu'r heddlu o 31 Mawrth 2015 i 31 Mawrth 2018

Dyfed-Powys

Cymru a Lloegr

-2%

-6%

Arfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2010

Dyfed-Powys

Cymru a Lloegr

92%

89%

A rfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2015

Dyfed-Powys

Cymru a Lloegr

92%

92%

Cyfran arfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2018

Dyfed-Powys

Cymru a Lloegr

92%

92%



Sefydliad

Cost swyddogion yr heddlu fesul pen o'r boblogaeth yn yr heddlu o gymharu â Chymru a Lloegr (2014/15)



Cost gweithlu'r heddlu fesul pen o'r boblogaeth yn yr heddlu o gymharu â Chymru a Lloegr (2014/15)



Ystadegau allweddol


Newid mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (ac eithrio twyll) o 31 Mawrth 2014 i 31 Mawrth 2015



Newid mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (ac eithrio twyll) o'r 12 mis i 31 Mawrth 2010 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015



Boddhad dioddefwyr yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015



Newid mewn boddhad dioddefwyr o'r 12 mis i 31 Mawrth 2011 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015



Boddhad dioddefwyr: Cyfwng hyder Dyfed-Powys +/- 3.4 y cant. Cyfwng hyder Cymru a Lloegr +/- 0.2 y cant.

I weld manylion llawn y data a ddefnyddiwyd yn y graffig hwn, gweler Atodiad A yn yr adroddiad cenedlaethol effeithlonrwydd.

Cyflwyniad

Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai cyllid canolog i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn lleihau o 20 y cant yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015. Nawr, mewn cyfnod o ostyngiadau parhaus yn y gyllideb, mae angen i heddluoedd barhau i sicrhau arbedion wrth ganolbwyntio ar leihau troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel.

Yn rhan o'i archwiliadau blynyddol i Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL), asesodd rhaglen effeithlonrwydd HMIC sut mae heddlu yn uchafu ar ganlyniadau o'i adnoddau sydd ar gael. Fe adolygom gynllunio ariannol a gweithlu heddluoedd wrth archwilio cwestiynau ehangach cost, gallu a chynhyrchiant. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar y cwestiwn cyffredinol, 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?'

I ateb y cwestiwn hwn fe edrychom ar dri maes:

- Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?
- Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?
- Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?

Yn ystod ein harchwiliad, fe gasglom ddata a chynlluniau o heddluoedd, holi'r cyhoedd i weld a oeddynt wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth a dderbyniont a chyflawni archwiliadau yn yr heddlu. Cynhaliom gyfweiliadau gyda phrif gwnstabiliaid a phrif swyddogion sy'n gyfrifol am gyllid, newid sefydliadol, adnoddau dynol a pherfformiad ym mhob heddlu a chynnal grwpiau ffocws o swyddogion a staff o amrywiol raddau a rhengoedd, ac ymweld yn ddirybudd â gorsafoedd heddlu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r casgliadau o'r archwiliad eang hwn o Heddlu Dyfed-Powys.

Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?

Archwiliodd HMIC sut mae'r heddlu yn deall y galwadau ar ei wasanaethau, a sut mae'n dyrannu ei staff a'r adnoddau ariannol i fodloni'r galwadau hynny. Yna fe asesom a yw'r penderfyniadau hynny yn arwain at ganlyniadau da i'r cyhoedd – bod yr heddlu'n weledol a'u bod yn mynychu'n brydlon os y'u gelwir, eu bod yn brwydro troseddau ac yn cadw cymunedau'n ddiogel, a bod dioddefwyr yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniont.

Pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw amdano?

Mae'r heddlu wedi gwella ei ddealltwriaeth yn ddiweddar o'r galw ar wasanaethau'r heddlu. Er bod y lefel gyffredinol o alw yn gymharol isel, mae Dyfed-Powys yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr iawn gyda chymunedau gwasgarog ac eang nad ydynt yn hawdd i'w cyrraedd. Felly mae'r heddlu wedi asesu na ddylai lefelau staffio gael eu harwain yn gyfan gwbl gan faint y galw am wasanaethau, ond dylai hefyd ystyried yr angen i ddarparu galluedd plismona llawn dros adran gyfan yr heddlu. Mae hyn yn golygu bod lefel staffio yn uwch nag y gellid disgwyl o lefel y galw.

Tan yn ddiweddar iawn, dim ond dealltwriaeth gyfyngedig iawn oedd gan yr heddlu o gyfanrwydd y galw am y gwasanaethau mae'n eu darparu i'r cyhoedd. Roedd yr heddlu'n cydnabod ei fod angen monitro a dadansoddi galw yn systematig, i gael gwell dealltwriaeth o'r holl alwadau ar ei wasanaethau er mwyn gallu sicrhau bod yr adnoddau cywir yn y man cywir ar yr adeg gywir. Roedd HMIC wedi eu plesio gyda'r offeryn dadansoddi a ddatblygwyd yn ddiweddar gan yr heddlu sy'n darparu set fanwl a chynhwysfawr o ddata am ffynonellau a maint y galw am wasanaethau ar draws ardal yr heddlu. Mae'r heddlu yn cydnabod bod yn rhaid datblygu'r gwaith hwn mewn llawer mwy o fanylder a'i fod hefyd angen ei ymestyn i gynnwys newidiadau a ragwelir yn y dyfodol ar gyfer galw yng ngwasanaethau'r heddlu, cyn y gellir gwneud defnydd ohono i reoli'r galwadau a chynllunio adnoddau yn y dyfodol y bydd angen ymateb iddynt.

Pa mor dda mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw?

Canfu HMIC bod Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud rhywfaint o waith cyfyngedig i baru adnoddau i alw. Mae'r modd mae'r heddlu wedi dyrannu ei adnoddau yn hanesyddol wedi bod yn adweithiol yn bennaf yn hytrach na chynllunio yn ôl galwadau disgwylidig. Fe welsom rai enghreifftiau o swyddogion yn cael eu lleoli'n hyblyg i fodloni pegynau mewn galw tymhorol, megis mewn ardaloedd twristaidd, ac yn ystafell reoli'r heddlu mae lefelau staff ateb galwadau yn cael ei addasu yn seiliedig ar batrymau hanesyddol o alw ar wahanol adegau o'r dydd a'r wythnos. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y math o ddadansoddiad rhagfynegol yn gyson ar draws

yr heddlu. Er enghraifft, disgrifiwyd niferoedd staff yn y gorsafoedd gan yr heddlu fel etifeddiaeth hanesyddol, yn hytrach na bod wedi eu cysylltu'n systematig i alwadau ym mhob ardal. Mae'r heddlu yn ceisio gwella ei ddealltwriaeth o'r galwadau am wasanaethau a'i allu i gynllunio a rhagweld galw yn y dyfodol er mwyn gallu ymateb yn well i'r galw'n fwy effeithiol trwy ddefnyddio'r offeryn dadansoddiad o alw a gyflwynwyd yn ddiweddar.


Pa mor dda mae gwasanaethau'r heddlu'n bodloni'r galw gan y cyhoedd?

I asesu ymateb yr heddlu i alw'r cyhoedd, ystyriodd HMIC ffigurau a chyfraddau troseddau yn Nyfed-Powys; lefelau boddhad dioddefwyr; a p'un a yw'r heddlu yn defnyddio dulliau gwahanol o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Er nad yw troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn fesur cyflawn o bell ffordd o'r galw mae heddlu yn wynebu, mae'n darparu dangosydd cymharol o berfformiad ar draws yr holl heddluoedd. Adroddir cyfraddau troseddau fel nifer o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth ym mhob ardal heddlu i ganiatáu ar gyfer cymharu rhwng ardaloedd. Mae cyfanswm troseddau a gofnodwyd yn cynnwys troseddau seiliedig ar ddiodefwyr (e.e. lladrad) a throseddau heb fod yn seiliedig ar ddiodefwyr (e.e. meddiant o gyffuriau). Dangosodd dau draean o heddluoedd gynnydd blynyddol yng nghyfanswm troseddau a gofnodwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Efallai bod y cynnydd hwn mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu wedi ei effeithio gan y ffocws o'r newydd ar ansawdd a chydymffurfiad cofnodion troseddau ers i HMIC gyflawni archwiliad cenedlaethol o gywirdeb data troseddau yn 2014.

Yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 roedd gan Ddyfed-Powys gyfradd troseddau seiliedig ar ddiodefwyr o 29.5 a chyfradd troseddau nad ydynt yn seiliedig ar ddiodefwyr o 8.0 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynrychioli lleihad (12 y cant) yn y gyfradd troseddau diodefwyr a chynnydd (11 y cant) yn y gyfradd troseddau heb ddiodefwyr ers dechrau'r adolygiad o wariant yn 2010. Yn ystod yr un cyfnod roedd gan Gymru a Lloegr gyfradd troseddau seiliedig ar ddiodefwyr ac nad yw'n seiliedig ar ddiodefwyr o 55.2 a 6.9 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno. Mae hyn yn cynrychioli lleihad yn y ddwy gyfradd troseddau o 15 y cant ac 19 y cant yn y drefn honno ers dechrau'r adolygiad o wariant. Gellir gweld graddfa'r newid mewn cyfraddau troseddau yn Ffigwr 1.

Ffigwr 1: Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fesul 1,000 o'r boblogaeth o Ddyfed-Powys yn y 12 mis i 31 Mawrth 2010 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015, o gymharu â Chymru a Lloegr



Ffynhonnell: Ystadegau troseddau'r Swyddfa Gartref ac amcangyfrifon poblogaeth canol 2013 yr ONS (defnyddir data poblogaeth 2013 ar draws blynyddoedd lluosog i ddatgelu gwir newid mewn troseddau a gofnodwyd, yn hytrach na newidiadau oherwydd newid poblogaeth).

O'r rhai sydd wedi bod yn ddiodefwyr troseddau yn Nyfed-Powys, roedd 87.4³ yn fodlon gyda'u profiad cyfan gyda'r heddlu yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015. Mae hyn yn uwch na'r gyfradd boddhad diodefwyr cenedlaethol o 83.8 y cant⁴ dros yr un cyfnod amser. Ni chafwyd newid arwyddocaol mewn boddhad diodefwyr rhwng 2011 a 2015 yn Nyfed-Powys.

Bu HMIC yn monitro sut mae heddlu yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn rhan o'r archwiliad. Mae Ffigwr 2 isod yn dangos bod Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio ystod o ddulliau (yn cynnwys Facebook, Twitter ac e-bost) i ymgysylltu â'r cyhoedd.

³ Cyfwng hyder Dyfed-Powys +/- 3.4 y cant.

⁴ Cyfwng hyder Cymru a Lloegr +/- 0.2 y cant.

Ffigwr 2: Dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd a ddefnyddir gan Heddlu Dyfed-Powys yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015

A yw'r Heddlu yn defnyddio'r ffrydiau cyfathrebu canlynol?	
Facebook	Ydi
Twitter	Ydi
E-bost	Ydi
Neges testun	Nac Ydi
Fforwm y we	Nac Ydi
Instagram	Nac Ydi
Ffôn lleol (nid 999 na 101)	Nac Ydi

Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC

Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli galw?

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn un o'r ychydig heddluoedd sy'n dal i anfon ymateb heddlu i fynychu pob trosedd a adroddir. Mae'r rhan fwyaf o heddluoedd yn cydnabod nad oes angen i'r heddlu fynychu ar gyfer nifer o alwadau am wasanaeth ac y gellir delio â nhw dros y ffôn neu trwy gyfeirio at sefydliad arall i ddelio â nhw. Ar hyn o bryd mae gan yr heddlu ddigon o adnoddau i allu darparu'r lefel hon o wasanaeth. Fodd bynnag, wrth i gyllidebau barhau i gael eu torri, gan alw am leihad yn niferoedd swyddogion yr heddlu, bydd angen i'r heddlu reoli ei adnoddau yn fwy effeithlon.

Mae dealltwriaeth yr heddlu o alw yn datblygu ac mae'n gweithio gydag asiantaethau eraill y sector cyhoeddus i nodi meysydd aneffeithlonrwydd a dulliau mwy effeithiol o weithio i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd. Mae'r heddlu yn arddangos parodrwydd i addasu ac archwilio dulliau newydd o weithio. Mae yna rywfaent o dystiolaeth bod Heddlu Dyfed-Powys yn dechrau rheoli galw mewn ffordd sy'n cydbwysu'r anawsterau a gyflwynwyd gan ddaearyddiaeth yr ardal gyda'r angen i ddarparu lefel o blismona gweladwy ar draws holl ardaloedd Dyfed-Powys er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Mae'r heddlu yn dechrau delio gyda rhai mathau o alw dros y ffôn, gan ddefnyddio'r ymagwedd THRIVE⁵ i wneud penderfyniadau. Yn ogystal, mae'r heddlu'n archwilio sut y gall wneud defnydd gwell o gyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chymunedau.

⁵ THRIVE – mae'r dull hwn yn ymwneud ag asesu risg yn seiliedig ar fygythiad, niwed, risg, ymchwiliad, bregusrwydd ac ymgysylltu.

Mae gan staff plismona cymdogaeth fecanweithiau a pherthnasau aeddfed a sefydledig gyda'u cymunedau a sefydliadau lleol eraill. Er enghraifft, mae yna dîm cymdogaeth ymroddedig yn taclo troseddau casineb.

Mae gan yr heddlu hefyd uned troseddau seiber newydd sy'n codi ymwybyddiaeth o ac yn delio â'r cynnydd mewn galw yn y maes gwaith hwn.

Pa mor dda mae'r heddlu yn monitro a deall allbynnau, canlyniadau a chostau?

Mae gan yr heddlu brosesau da ar waith i fonitro a deall pa mor dda mae'n gwneud. Mae yna ffocws da ar ddioddefwyr ac mae monitro'r heddlu wedi ei strwythuro o amgylch y dioddefwr a'i brofiad o'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu. Mae'r heddlu wedi gallu arddangos gwella gwasanaeth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl a defnydd mwy effeithlon o amser yr heddlu trwy weithio gyda gwasanaethau iechyd trwy frysbenno iechyd meddwl. Mae symud tuag at ffocysu ar fathau penodol o droseddau blaenoriaeth ac unigolion sy'n cyflwyno'r bygythiad a risg mwyaf i gymunedau yn bositif ac yn newid y diwylliant yn yr heddlu. Mae'r heddlu'n symud yn weithredol oddi wrth ymagwedd wedi ei harwain gan dargedau o fesur ei berfformiad tuag at un o ymateb i alw a grymuso staff i ddefnyddio doethineb priodol i wneud y peth iawn.

Cyflawnwyd gwaith cyfyngedig i ddeall y berthynas rhwng costau darparu gwasanaethau a'r canlyniadau a sicrhawyd; fodd bynnag, disgwylir y bydd yr wybodaeth o'r gwaith dadansoddi galw yn rhoi cyfle i'r heddlu gael gwell dealltwriaeth o gostau ei amrywiol weithgareddau.

Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio dulliau gwaith newydd i wella gwasanaethau?

Mae yna rai gwasanaethau heddlu arbenigol sefydledig ac effeithiol a ddarperir mewn cydweithrediad â heddluoedd eraill, yn arbennig gyda Heddlu De Cymru a Gwent, ble mae gwasanaethau ar y cyd yn darparu gwell gwytnwch a rhai arbedion costau. Mae yna barodrwydd i ehangu cydweithrediad gyda holl heddluoedd Cymru. Mae'r pedwar comisiynydd heddlu a throsedd a'r prif gwnstabiliaid wedi comisiynu cwmni ymgynghori sector preifat ar y cyd i archwilio'r cyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach. Mae'r gwaith ar ei gychwyn ac, er bod cynllun ariannol tymor canolig Dyfed-Powys yn dibynnu ar y cydweithrediad estynedig hwn i gyflawni arbedion pellach o 2016/17 ymlaen, nid oes sicrwydd y bydd hyn yn cyflawni'r arbedion o fewn y cyfnod amser ac ar y lefel ofynnol.

Mae uchelgais menter plismona ddigidol Heddlu Dyfed-Powys wedi plesio HMIC, ac mae'r heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn technoleg newydd i alluogi data symudol i fod ar gael i'r holl swyddogion rheng flaen er mwyn iddynt nawr allu cyflawni ystod o weithgareddau ar-lein heb fod angen dychwelyd i orsaf. Mae'r

dyfeisiau symudol a meddalwedd a ddarparwyd i swyddogion rheng flaen yn eu galluogi i fewnbynnu cofnodion troseddau, manylion stopio a chwilio, cael mynediad i ddata'r ANPR⁶ a llwytho adroddiadau cudd-wybodaeth i fyny yn y fan a'r lle.

Mae'r heddlu wedi cyflwyno porth digidol sy'n darparu swyddogion rheng flaen â 'siop un stop' ar gyfer adeiladu ar ffeiliau achosion yr erlyniad ac sy'n ceisio sicrhau y bodlonir safonau ansawdd cyson ar gyfer ffeiliau achos. Mae hyn yn cynnig cyfle gwirioneddol i symleiddio'r broses a'i gwneud yn fwy tebygol bod troseddwr yn cael eu dwyn i gyflawnder yn fuan ac yn effeithiol, gan helpu'r heddlu i gyflawni'r targed saith niwrnod gofynnol trwy 'Drawsnewid Cyfiawnder Diymdroi'⁷.

Crynodeb o ganfyddiadau



Da

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydnabod pwysigrwydd cael gwell dealltwriaeth o alw er mwyn sicrhau y gellir defnyddio adnoddau fwyaf effeithiol i flaenoriaethu ac ymateb i alw. Mae wedi datblygu ymagwedd newydd i ddadansoddi galw, y gobeithir fydd yn darparu dealltwriaeth llawer gwell.

Mae'r heddlu yn un o'r ychydig rai yn genedlaethol sy'n dal i anfon ymateb heddlu i bob trosedd. Mae galwadau am wasanaethau heddlu ar draws Dyfed-Powys yn gymharol isel, ond mae penderfyniadau ar y lefelau o adnoddau sydd angen nid yn unig wedi eu hysgogi gan alw, ond hefyd gan yr angen i ddarparu plismona gweladwy ac effeithiol ar draws ardal heddlu eang, wledig gan fwyaf. Mae'r heddlu yn cydnabod ei fod angen gwneud mwy i wella ei reolaeth o alw.

Mae gan yr heddlu ffocws cryf ar safbwynt y dioddefwr o wasanaethau'r heddlu, er bod dealltwriaeth fwy cyfyngedig o'r berthynas rhwng costau gwasanaethau a'r canlyniadau maent yn cyflawni.

Mae HMIC yn hapus gydag uchelgais ymagwedd Heddlu Dyfed-Powys i ddefnyddio technoleg newydd i wella effeithlonrwydd a darparu gwell gwasanaethau. Mae'r heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu plismona digidol.

⁶ ANPR - Adnabod Platiâu Rhif Awtomataidd. System sy'n cofnodi manylion cofrestru cerbyd yn awtomatig mewn manau penodol i gynorthwyo yn ymchwiliadau'r heddlu.

⁷ Ym Mehefin 2013, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol. Fe sefydlodd weledigaeth ar gyfer system cyfiawnder troseddol (CJS) sy'n darparu ymateb buan a phenderfynol i droseddau, sy'n trin dioddefwyr a thystion â gofal ac ystyriaeth, ac sy'n darparu llawer mwy o werth am arian i'r trethdalwr.

Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?

Archwiliodd HMIC sut mae Heddlu Dyfed-Powys wedi strwythuro ei weithlu (h.y. ei gyfuniad o swyddogion yr heddlu, staff a PCSOs, a'r gyfran o'r holl grwpiau hyn yn gweithio mewn swyddi rheng flaen), ac wedi asesu a oedd hyn yn fforddiadwy a chynaliadwy wrth i'r heddlu ymateb i'w her ariannol. Fe ystyriom hefyd beth mae'r heddlu yn ei wneud i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau a gallu priodol i frwydro troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel nawr ac yn y dyfodol.

Pa mor dda mae model gweithlu presennol yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?

Rhagwelodd Heddlu Dyfed-Powys gyfanswm gofyniad arbedion dros bedair blynedd gyntaf yr arolwg o wariant yn rhan o'r rhaglen Gwerthfawrogi'r Heddlu (2011/2012 i 2014/15) o £15.05m, sy'n cyfateb i 13 y cant o wariant referniw gros 2010/11 yr heddlu. Sicrhawyd arbedion yn y cyllidebau cyflogau ac nad ydynt yn gyflogau. Ers 2010, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiad o 19 o swyddogion yr heddlu, 185 o staff a chynnydd o 64 PCSOs, cyfatebol i lawn amser (FTE).

Fe ailstrwythurodd yr heddlu reolaeth o'i fodel gweithredu⁸ yn 2011 gan ddiddymu llawer o swyddi uwch. Y bwriad ar y pryd oedd i symud i ffwrdd o ardaloedd plismona daearyddol i un uned unigol ar draws yr heddlu i wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau ar draws ardal gyfan yr heddlu. Ar hyn o bryd, mae'r ardaloedd plismona dwyrain a gorllewin a'r pedair ardal sirol yn dal i cael eu rhedeg fel unedau ar wahân gyda'u hadnoddau penodedig eu hunain ac nid yw lleoli adnoddau ar draws yr heddlu cyfan i ymateb i alwadau am wasanaeth wedi ei gyflawni eto. Mae'r heddlu'n cydnabod ei fod angen gwella'r modd mae'n defnyddio'r staff yma ar hyn o bryd er mwyn gallu gwella'r ymateb i alwadau am wasanaeth a gweithredu swyddogaeth model plismona yn fwy effeithlon ac effeithiol i fodloni anghenion y gymuned.


Gwelodd Heddlu Dyfed-Powys un o'r gostyngiadau lleiaf yn nifer swyddogion yr heddlu ers 2010, ar tua dau y cant rhwng 2010 a 2015 (o gymharu â chyfartaledd Cymru a Lloegr o 12 y cant). Torrwyd niferoedd staff yr heddlu o ffin fwy arwyddocaol gyda lleihad o 26 y cant (cyfartaledd Cymru a Lloegr o 19 y cant). Felly er nad yw'r modd mae swyddogion yr heddlu wedi eu strwythuro wedi newid yn sylweddol dros y cyfnod hwn, mae staff yr heddlu wedi mynd trwy ailstrwythuro sylweddol. Mae'r heddlu wedi cael gwared ar 185 o swyddi'r heddlu ers 2010, gyda nifer ohonynt wedi eu torri pan sefydlodd yr heddlu'r uned cefnogaeth fusnes (BSU) yn ystod 2014.

⁸ Model gweithredu - y modd mae heddlu wedi ei drefnu o ran ei strwythur a'r prosesau mae wedi eu mabwysiadu ac y mae'n gweithredu er mwyn cyflawni ei amcanion.

Daeth y BSU a'r holl swyddogaethau swyddfa gefn blaenorol megis cyllid ac AD ynghyd. Y bwriad yw bod staff yn gymwys ym mhob tasg ac yn gweithio'n hyblyg ac yn fwy effeithlon, gan gyflawni ystod o wahanol wasanaethau cefnogaeth. Fodd bynnag, canfu HMIC er bod lefelau staffio eisoes wedi eu lleihau, bod yr heddlu yn dal i ddatblygu'r prosesau angenrheidiol a fydd yn galluogi'r uned i weithredu fel y rhagwelir. Mae'r lleihad mewn galluedd yn y BSU gyda staff heb brofiad mewn rolau newydd a diffyg prosesau effeithiol yn arwain at anawsterau wrth weithredu yn effeithiol neu'n effeithlon. Mae yna ôl-groniadau arwyddocaol mewn gwaith ac mae'r heddlu yn talu lefelau uchel o oramser i staff. Nid yw'r heddlu wedi cyflawni adolygiad yn dilyn gweithredu eto i werthuso'r newid.

Yn Nyfed-Powys, cafwyd gostyngiadau yng nghyfanswm y nifer o swyddogion yr heddlu FTE dros y cyfnod 2010 i 2015, fel y gwelir yn ffigur 3. Yn ystod y cyfnod amser hwn, mae'r gyfran o rolau rheng flaen wedi parhau ar 92 y cant o 2010 i 2015. Mae'r heddlu yn disgwyl cynnal y gyfran hon wrth edrych ymlaen at 2018.

Ffigur 3: Newidiadau arfaethedig i swyddi cyfatebol i lawn amser (FTE) swyddogion yr heddlu mewn rolau rheng flaen weithredol, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth fusnes yn Heddlu Dyfed-Powys, o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018.



Ffynhonnell: Data dychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref a chasglu data effeithlonrwydd HMIC.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigur 3, gweler Atodiad A

Mae absenoldeb gweledigaeth trosfwaol i'r heddlu o ran darparu plismona yn Nyfed-Powys yn ei gwneud yn anodd asesu i ba raddau y bydd y model gweithlu presennol yn darparu'r gwasanaethau hynny â'r sgiliau priodol yn y man priodol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod cynllun gweithlu presennol yr heddlu wedi ei alinio i gynlluniau

gyllid. Mae'r heddlu wedi rheoli ei arbedion gyda lleihad cymharol fychan ym maint y gweithlu a dim ond newid cyfyngedig i fodel gweithredu'r heddlu. Mae hyn (ynghyd â lleihad mewn galw) wedi ei alluogi i barhau gyda pholisi o fynychu pob trosedd a adroddir yn Nyfed-Powys. Mae'r heddlu hefyd wedi targedu adnoddau atodol i feysydd blaenoriaeth megis diogelu pobl fregus a throseddau seiber.

Mae newidiadau i faint y gweithlu gwreiddiol wedi eu hysgogi gan gyllid nid gan y gofynion sefydliadol. Roedd toriadau yn nifer staff yr heddlu yn rhan o'r rhaglen newid 'Y Cyhoedd yn Gyntaf', a ddechreuodd yn Ionawr 2014 wedi eu hysgogi'n bennaf gan yr angen i leihau gwariant yn hytrach nag o ganlyniad i raglen trawsnewidiad ehangach neu hyd yn oed gynllun gweithlu.

Pa mor dda mae model gweithlu rhagweledig yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?

Ffigwr 4: Newidiadau arfaethedig mewn gweithlu FTE o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys o gymharu â Chymru a Lloegr

	Mawrth 2010	Gwahaniaeth rhwng 2010 a 2015		Mawrth 2015	Gwahaniaeth rhwng 2015 a 2018		Mawrth 2018
		Gorllewin Swydd Efrog	Cymru a Lloegr		Gorllewin Swydd Efrog	Cymru a Lloegr	
Swyddogion yr Heddlu	1,195	-2%	-12%	1,176	-5%	-6%	1,117
Staff yr Heddlu	720	-26%	-19%	536	4%	-6%	558
Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	83	78%	-27%	147	-6%	-11%	138
Cyfanswm gweithlu	1,998	-7%	-15%	1,858	-2%	-6%	1,813

Ffynhonnell: Casglu data effeithlonrwydd HMIC ac ystadegau gweithlu'r Swyddfa Gartref

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 4, gweler Atodiad A

Nid yw'r heddlu wedi datblygu model gweithlu dyfodol eto. Mae yna ostyngiadau rhagweledig mewn staff sydd wedi eu nodi fel y rhai sydd eu hangen i gydbwysu'r gyllideb dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r niferoedd a ragwelir ar gyfer y gweithlu yn alinio'n dda i'r cynlluniau ariannol tymor canolig. Fodd bynnag, yn absenoldeb gweledigaeth i'r dyfodol, cynllun newid a model rhagweledig, ni all yr heddlu werthuso effaith y toriadau staff hyn ar allu'r heddlu i gynnal plismona gwydn a chyflawni'r blaenoriaethau heddlu a throsedd.

Nawr bod newidiadau trwy'r rhaglen Y Cyhoedd yn Gyntaf wedi eu cwblhau, nid oes gan yr heddlu gynlluniau newid cynhwysfawr ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n glir sut fydd yr heddlu yn parhau i reoli'r gostyngiadau gofynnol yn ei gyllideb a chyflawni canlyniadau gwell i gymunedau lleol.

Crynodeb o ganfyddiadau



Angen gwelliant

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rheoli ei arbedion gyda lleihad bychan yn y nifer o swyddogion yr heddlu, ers 2010. Ychydig iawn mae wedi newid sut mae'n darparu plismona rheng flaen dros y cyfnod hwn. Mae'r heddlu wedi lleihau'r nifer o staff heddlu sy'n darparu gwasanaethau cefnogaeth o gyfran llawer mwy na welwyd mewn heddluoedd eraill. Mae wedi cyflawni'r lleihad hwn trwy sefydlu uned cefnogaeth fusnes sy'n uno'r holl swyddogaethau cefnogaeth fusnes eraill oedd ar wahân yn flaenorol, yn cynnwys cyllid ac AD. Mae disgwyl i staff weithio ar draws ystod eang o wahanol rolau cefnogaeth, yn hytrach nag mewn timau arbenigol.

Fodd bynnag, gwelodd HMIC nad yw'r uned newydd hon yn gweithredu yn effeithiol nac effeithlon eto. Mae'r nifer o staff wedi lleihau, ond nid oes gan yr heddlu y prosesau na'r staff gyda'r ehangder sgiliau sydd angen.

Nid yw'r heddlu wedi datblygu model gweithlu dyfodol eto. Mae yna ostyngiadau rhagweledig mewn staff sydd wedi eu nodi fel y rhai sydd eu hangen i gydbwysu'r cyllideb dros y pedair blynedd nesaf. Mae newidiadau i faint y gweithlu gwreiddiol wedi eu hysgogi gan gyllid nid gan y gofynion sefydliadol. Mae gan yr heddlu nifer gyfyngedig o gynlluniau newid. Nid yw'n glir sut fydd yr heddlu yn parhau i reoli'r gostyngiadau yn ei gyllideb a chynnal plismona effeithiol.

Meysydd Gwelliant:

- Dylai'r heddlu adolygu ei uned cefnogaeth fusnes i sicrhau bod gan staff yr hyfforddiant a sgiliau priodol i alluogi'r uned i weithredu fel y bwriedir.
- Dylai'r heddlu ddatblygu cynllun gweithlu sydd wedi ei alinio i'w alw a chyllideb cyffredinol. Dylai'r cynllun gynnwys dyraniadau adnoddau yn y dyfodol, y cyfuniad o sgiliau sy'n ofynnol gan y gweithlu ac ymddygiadau a ddisgwylir ganddynt.


Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?

Archwiliodd HMIC sut mae heddluoedd wedi sicrhau arbedion dros yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, y cynlluniau arbedion mae heddluoedd wedi datblygu ar gyfer y dyfodol a thybiaethau'r heddlu o ran deall yr heriau ariannol i ddod. Rydym hefyd wedi asesu a oes gan heddluoedd reoliadau a llywodraethu ariannol da, ac os yw gwario yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y cynllun plismona a throsteddau.

A yw'r heddlu wedi cyflawni ei ofynion arbedion a chydbwyso'r gyllideb ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant a 2014/15?

Rhagwelodd Heddlu Dyfed-Powys arbedion o £15.05m dros bedair blynedd gyntaf yr adolygiad gwariant (2011/12 i 2014/15), sy'n cyfateb i 13 y cant o wariant referniw gros 2010/11 yr heddlu. Dros y cyfnod, cafwyd arbedion yn y cyllidebau cyflogau ac nad ydynt yn gyflogau, er mwyn mantoli'r cyllidebau erbyn 2014/15. Dros yr un cyfnod, rhagwelodd yr holl heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr ofyniad cyfanswm arbedion o £2.53bn, sy'n cyfateb i 18.2 y cant o wariant referniw gros 2010/11 ar gyfer Cymru a Lloegr

Ffigwr 5: Newid a amcangyfrifir mewn gwariant o 2011/12 i 2014/15, ac arbedion arfaethedig a ragwelir ar gyfer 2015/16 i 2019/20, yn erbyn llinell sylfaen gwariant refeniw gros 2010 ar gyfer yr heddlu a Chymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data plismona mewn cyni HMIC, casglu data effeithlonrwydd HMIC a data Dadansoddiad Amcan yr Heddlu y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 5, gweler Atodiad A

Mae'r heddlu nawr wedi cyflawni cyfanswm ei ofyniad arbedion dros y cyfnod adolygiad o wariant diwethaf. Mae wedi cynllunio cyllideb gytbwys trwy gydol yr adolygiad o wariant ond wedi gorffen pob blwyddyn gyda thanwariant sylweddol (rhwng £4m a £6m pob blwyddyn). Mae hyn wedi golygu bod yr heddlu wedi gallu cynyddu ei gronfeydd mewn cyllid a glustnodwyd ar gyfer cost newid yn y dyfodol, fel gwelliannau i ystadau. Yn ogystal â chynyddu sefydlu swyddogion yr heddlu i 1,176 (erbyn Mawrth 2015), mae unwaith eto yn rhagweld ychwanegu £2m arall i'w gronfeydd ar ddiwedd 2014/15.

A yw'r heddlu wedi cydbwysu'r gyllideb ar gyfer 2015/16?


Mae gan Heddlu Dyfed-Powys gyllideb gytbwys arfaethedig o £105.1m ar gyfer 2015/16, sy'n cynnwys toriad mewn gwariant o £3.6m. Rhagwelir y bydd y lleihad yn cael ei rannu rhwng £2.9m o'r gyllideb cyflogau (81 y cant) a £0.7m (19 y cant) o'r gyllideb nad yw'n gyflogau yn arbedion eleni. Mae'r heddlu yn bwriadu bodloni ei leihad mewn gwariant heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i bontio. Ers llinell sylfaen 2010, ar ddechrau'r adolygiad o wariant, mae hyn yn cynrychioli arbediad o 17 y cant.

Bydd yr arbedion a gynlluniwyd i sicrhau cyllideb gytbwys yn cael eu canfod trwy gyfuniad o arbedion o'r rhaglen newid Y Cyhoedd yn Gyntaf, a gostyngiadau cyllideb eraill ar draws pob maes. Ar yr un pryd, mae praesept yr heddlu o'r dreth gyngor leol ar gyfer 2015/16 wedi ei leihau o bump y cant o'r flwyddyn flaenorol, gan wneud y bwch arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn fwy na'r disgwyl.

Sut mae'r heddlu wedi uchafu cyfleoedd cyllido eraill?

Mae ffigur 6 yn arddangos faint o gyllid mae'r heddlu wedi ei dderbyn o grant llywodraeth ganolog, fel praesept gan gynghorau lleol trwy'r dreth gyngor, a gan ffynonellau eraill, megis grantiau arbennig y Swyddfa Gartref. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl i'r gyfradd o'i gyllid a ddaw o gyllid llywodraeth y setliad craidd i leihau dros y blynyddoedd i ddod, tra'n rhagweld y bydd y gyfran o'i gyllid a ddaw o'r praesept (cyllid y dreth gyngor) yn cynyddu dros yr un cyfnod amser. Dylid nodi y daw cyllid setliad craidd y llywodraeth, o ran gwerth ariannol a chyfrannau o gyfanswm cyllid, a ddisgrifir yn ffigur 6 o amcangyfrifon yr heddlu a gesglir yn rhan o gasgliad data archwiliad effeithlonrwydd HMIC. Ni ddylid ystyried y data hwn fel rhagolwg swyddogol. Mae'r Swyddfa Gartref yn y broses o ymgynghori ar newidiadau i fformwla cyllido'r heddluoedd ac felly gallai unrhyw ragolygon presennol newid yn ystod y cyfnod amser a amlygir.

Ffigur 6: Cyfuniad a ragwelir o gyllid ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys o'r 12 mis i 31 Mawrth 2015 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2019, o gymharu â heddluoedd Cymru



Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC.

Mae'r heddlu wedi gwneud defnydd da o gydweithredu yn arbennig gyda heddluoedd deheubarth Cymru. Gwnaethpwyd defnydd cyfyngedig o gyfleoedd am gyllid allanol. Cafwyd rhywfaint o ddefnydd bychan o Gronfa Arloesi'r Heddlu yn y gorffennol, er enghraifft, i gefnogi ymagwedd rhwng yr heddlu a gwasanaethau iechyd meddwl i ddarparu prosiect brysbennu iechyd meddwl, ac fe chwaraeodd Dyfed-Powys rôl flaenllaw yng nghais rheoli integredig troseddwyr (IOM)⁹ Cymru yn 2014/15 ar gyfer y prosiect braenaru menywod.


Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli gwariant?

Mae lefel cronfeydd wrth gefn yr heddlu a sut y rhagwelir y byddant yn newid dros amser wedi ei nodi yn ffigur 7. Adroddodd Heddlu Dyfed-Powys bod cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn yn £44.7m yn 2014/15. Mae'r rhain wedi eu didoli i sawl categori:

- cronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo – swm i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu i leddfu llif arian anwastad;
- cronfeydd a neilltuwyd (clustnodwyd) – mae'r rhain yn gronfeydd a neilltuwyd ar gyfer dibenion cyfalaf penodol;
- cronfeydd derbynebion cyfalaf – mae'r rhain yn elw o werthu asedau y gellir eu defnyddio ar gyfer dibenion cyfalaf penodol yn unig; a
- cyfalaf cyffredinol i gefnogi gwariant cyfalaf arfaethedig yn y dyfodol.

⁹ Mae Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) yn delio â'r bygythiadau troseddau ac aildroseddu y mae cymunedau lleol yn wynebu. Nodir y troseddwyr mwyaf cyson a thrafferthus a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau sy'n cydweithio. Y nodau yw i leihau'r lefelau o droseddu a gwneud cymunedau'n fwy diogel.

Ffigwr 7: Dadansoddiad o gronfeydd sy'n weddill fel cyfran o wariant referiw net yn y flwyddyn, a chyfanswm y cronfeydd sy'n weddill (£), ar gyfer 2014/15 i 2018/19



Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 7, gweler Atodiad A

Tra bod gan yr heddlu hanes da o sicrhau arbedion, gyda lleihad bychan iawn yn niferoedd swyddogion yr heddlu; gallwn hefyd weld yn ystod pob blwyddyn o'r cyfnod hwn bod yr heddlu wedi arbed mwy o arian nag oedd angen ac wedi tanwario o swm sylweddol. Mae hyn yn dynodi y cafwyd rhywfaint o ddiffyg dealltwriaeth o ran cost bresennol plismona a chyflwyniad cam wrth gam arbedion. O ganlyniad i danwario arwyddocaol rheolaidd, mae gan yr heddlu ar hyn o bryd lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn o £44.7m.

Fodd bynnag, mae hyn wedi galluogi'r heddlu i fuddsoddi mewn mentrau a gynlluniwyd i wella gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol, er enghraifft, y dechnoleg newydd ar gyfer y fenter plismona digidol yn darparu dyfeisiau data symudol i 650 o staff rheng flaen. Mae'r heddlu hefyd wedi buddsoddi mewn gwell rheolaeth o droseddwyr cyson trwy IOMs ar draws pedair ardal bwrdeistref sirol Dyfed-Powys.

Pa mor dda mae cynlluniau ariannol yr heddlu yn adlewyrchu'r amcanion a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a throsteddu'r PCC?

Mae'r cynlluniau ariannol wedi eu datblygu ar y cyd â swyddfa'r comisiynydd heddlu a throstedd (OPCC) ac wedi eu cynllunio i adlewyrchu'r blaenoriaethau yng nghynllun yr heddlu a throsteddu. Er enghraifft, targedwyd adnoddau atodol tuag at ddiogelu pobl fregus a thaclo'r bygythiad cynyddol o droseddau seiber. Mae'r PCC wedi nodi chwe blaenoriaeth ar gyfer Dyfed-Powys yn y cynllun:

- Atal a thaclo trosedd.
- Cefnogi pobl agored i niwed.
- Dod â phobl i gyfiawnder.
- Gwella mynediad i wasanaethau'r heddlu.
- Sicrhau safonau uchel o broffesiynoldeb.
- Gwario'n ddoeth.

Pa mor dda mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth ariannol amserol a pherthnasol i swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsteddu (OPCC) ac a ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol?

Mae cyfarwyddwr cyllid yr heddlu yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda phrif swyddog cyllid y PCC ac mae'r ddau sefydliad yn cydweithio ar gynllunio ariannol, gan ddefnyddio'r un tybiaethau ar gyfer cynlluniau presennol ac i'r dyfodol. Mae yna fonitro rheolaidd gydag adroddiadau misol i dîm arweinyddiaeth yr heddlu ac i'r PCC.

Fodd bynnag, mae HMIC yn pryderu bod yna rai risgiau allweddol yng nghynlluniau ariannol tymor canolig yr heddlu, a allai arwain at lai o incwm nag y tybir ar hyn o bryd. Pan adolygodd y llywodraeth y fformwla ar gyfer cyfrifo'r lefel o grant i heddluoedd unigol rha blynyddoedd yn ôl, roedd yn glir bod y fformwla newydd yn golygu y byddai rhai heddluoedd ar eu hennill yn sylweddol ac y byddai'n rhai'n colli cryn dipyn o gymharu â lefelau blaenorol. Cyflwynwyd mecanwaith gwanychu i leihau'r effaith ac fe gyfyngwyd ar y cynnydd a'r lleihad trwy'r hyn a elwir yn grantiau lloriau a nenfydau. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i elwa o'r mecanwaith gwanychu; trwy dderbyn grant lloriau sy'n ychwanegu tuag £9m yn atodol y flwyddyn uwchlaw'r grant a osodwyd trwy weithredu'r fformwla cyllido yn gaeth. Mae'r llywodraeth yn y broses o adolygu fformwla cyllido'r heddlu unwaith eto, ac mae risg y bydd grant Heddlu Dyfed-Powys yn lleihau ar rhyw bwynt yn y dyfodol o ganlyniad. Yn ogystal, mae'r heddlu'n tybio y bydd cynnydd praesept y dreth gyngor blynyddol o

bump y cant yn cael ei ddyfarnu. O ystyried i'r heddlu gael lleihad yn ei braesept o bump y cant ar gyfer 2015/16 a gyda chynni parhaus yn y sector cyhoeddus, mae risg na fydd hyn o reidrwydd yn wir. Yn ogystal, nid yw'r cyllid grant atodol ar gyfer PCSOs gan Lywodraeth Cymru wedi ei sicrhau tu hwnt i 2017/18,

Faint mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer arbedion pellach posibl wedi eu datblygu?

Mae'r heddlu yn wynebu sawl ansicrwydd dros gyfnod y cynllun ariannol tymor canolig hwn, sy'n cyflwyno risg arwyddocaol parthed y tybiaethau a wneir am yr arbedion sydd eu hangen yn y dyfodol.

Ar adeg yr archwiliad, canfu HMIC nad oedd y cynlluniau ar gyfer arbedion yn y dyfodol tu hwnt o 2015/16 wedi eu datblygu'n dda. Yn seiliedig ar y tybiaethau a drafodwyd uchod am gyllid yn y dyfodol, mae'r heddlu wedi nodi y bydd angen arbedion pellach o £9.7m o 2016/17 i 2018/19. Mae yna arbedion cyllideb ar y gweill a fydd yn cyflawni £2.16m o hyn erbyn 2018/19, mesurau cyni atodol o £0.91m a rhai arbedion yn weddill trwy weithredu Y Cyhoedd yn Gyntaf o £0.18m.

Nid yw'r cynlluniau ar gyfer yr arbedion sy'n weddill wedi eu datblygu'n dda. Mae cynlluniau arbedion o gydweithredu yn ddibynnol ar ganlyniad adolygiad yr ymgynghorwyr allanol a gomisiynwyd gan bedwar heddlu Cymru. Mae hwn yn asesiad annibynnol a gwrthrychol o gwmpas cyfleoedd cydweithredu posibl o fewn y pedwar heddlu yng Nghymru. Nid yw'r adolygiad wedi cwblhau eto a bydd yn dibynnu ar y pedwar heddlu a'r PCCs yn cytuno i gydweithio. Bydd cyflymder cyflawniad unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o hyn tu allan i reolaeth yr heddlu gan fwyaf.

Mae'r arbedion sy'n weddill sy'n angenrheidiol yn dangos fel rhai a gyflawnwyd trwy leihad mewn staff ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys 80 o swyddi swyddogion yr heddlu, 40 o swyddi staff yr heddlu a 15 o swyddi PCSO. Er ein bod yn cydnabod bod rhagolygon ar drosiant staff, h.y. peidio penodi i gymryd lle rhai sy'n ymddeol neu'n gadael, yn debygol o gyflawni'r gostyngiadau hyn; ar hyn o bryd nid oes cynlluniau o ran sut na ble fydd y toriadau hyn mewn staff yn digwydd na beth fydd yr effaith ar allu'r heddlu i ddarparu plismona yn defnyddio'r model presennol.

Crynodeb o ganfyddiadau



Angen gwelliant

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys hanes da o gyflawni'r arbedion gofynnol trwy gydol yr adolygiad gwariant gyda gostyngiad bychan iawn yn niferoedd yr heddlu. Fodd bynnag, mae'r heddlu wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb pob blwyddyn o swm sylweddol, gan gynnwys yn 2014/15. Mae hyn yn dynodi y cafwyd rhywfaint o ddiffyg dealltwriaeth o ran cost bresennol plismona a chyflwyniad cam wrth gam arbedion.

Mae'r heddlu wedi gosod cyllideb wedi ei mantoli ar gyfer 2015/16 er gwaethaf toriadau mewn cyllid gan y llywodraeth a'r praesept y dreth gyngor. Mae'n bwriadu canfod yr arbedion sydd angen eleni. Mae'r heddlu'n cydweithredu gyda heddluoedd eraill deheubarth Cymru i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol a gwydn mewn ystod o feysydd. Mae'r heddlu'n gweithio'n dda gyda'r comisiynydd heddlu a throsedd, gan ddatblygu cynlluniau ar y cyd i gyfeirio adnoddau at feysydd blaenoriaeth.

Nid yw'r cynlluniau ar gyfer sut fydd yn cyflawni arbedion tu hwnt i 2015/16 wedi eu datblygu'n dda. Bydd arbedion yn cronni o beidio penodi staff newydd wrth i rai adael, ond nid oes cynlluniau o ran sut na ble fydd y toriadau hyn mewn staff yn digwydd na beth fydd yr effaith ar allu'r heddlu i ddarparu plismona effeithiol, cynaliadwy. Yn ogystal, mae HMIC yn pryderu fod yna nifer o risgiau ac ansicrwydd am incwm yn y dyfodol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys allai olygu nad yw wedi llawn werthfawrogi'r arbedion sydd angen yn y dyfodol.

Meysydd Gwelliant:

- Dylai'r heddlu ddatblygu cynlluniau clir a realistig ar gyfer cyflawni'r arbedion tebygol sydd eu hangen tu hwnt i 2015/16. Dylai'r cynlluniau gynnwys adolygiad o'i dybiaethau am y praesept ac incwm grant ar y cyd â swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsedd, gan sicrhau bod cynlluniau at raid digonol i ddelio ag unrhyw risgiau ac ansicrwydd.

Atodiad A – Dyfarniadau HMIC

Y categorïau yw:

- rhagorol;
- da;
- angen gwelliant ; ac
- annigonol.

Gwneir dyfarniad o ran pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Wrth weithredu'r categorïau, mae HMIC yn ystyried:

bod effeithlonrwydd yr heddlu yn dda, neu'n rhagori ar y safon hon yn ddigonol i gael ei farnu i fod yn rhagorol;

mae effeithlonrwydd yr heddlu angen gwelliant am nad yw eto'n perfformio'n ar lefel dda, ac/neu mae yna rai gwendidau yn y sefydliad; neu

mae effeithlonrwydd yr heddlu yn annigonol oherwydd ei fod yn sylweddol is nag y gellid disgwyl yn rhesymol.

Atodiad B – Rhagor o wybodaeth ynghylch y data yn ffigurau 3, 4, 5 a 7.

Ffigwr 3

Newidiadau arfaethedig i swyddi cyfatebol i lawn amser (FTE) swyddogion yr heddlu mewn rolau rheng flaen weithredol, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth busnes yn yr heddlu/cwnstabiliaeth, 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018.

Daw'r data a ddefnyddiwyd yn ffigwr 3, ar gyfer Mawrth 2010 a Mawrth 2015 o ddychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref 601 ac nid yw'n cynnwys gweithlu a ddyrannwyd dan gategori '62 arall' tra bod y data a ddefnyddiwyd yn ffigwr 4 ar gyfer Mawrth 2010 a Mawrth 2015 o ddychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref 502 ac mae'n cynnwys y categori hwn. Felly efallai na fydd cyfansymiau data yn cyd-fynd yn union.

Ffigwr 4

Newidiadau arfaethedig mewn gweithlu FTE o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer yr heddlu/cwnstabiliaeth o gymharu â Chymru a Lloegr. Mae'r ffigurau yn nhabl 4 wedi eu talgrynnu i'r person cyfan agosaf, cyfatebol i amser llawn (FTE), ac felly gallai fod ychydig yn wahanol i'r union ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad.

Ar gyfer data ar 31 Mawrth 2010 a 31 Mawrth 2015 rydym wedi defnyddio data dychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref sy'n FTE 'gwir', tra ar gyfer y rhagolygon ar gyfer Mawrth 2018 yn rhagolygon seiliedig ar gyllideb ac felly'n debygol o ystyried cyfradd swyddi gwag yn ddibynnol ar strategaeth gynllunio heddlu/cwnstabiliaeth. Mewn rhai achosion felly efallai na fydd cynnydd mewn swyddi a gyllidebwyd yn dangos bod yr heddlu/cwnstabiliaeth wir yn cynllunio i gynyddu eu gweithlu wrth symud ymlaen. Mewn achosion eraill, efallai y bydd heddluoedd yn bwriadu lleihau eu gweithlu ond bod ganddynt gyfradd swyddi gwag uchel bresennol sy'n celu'r newid hwn.

Oherwydd y darlun cymhleth ac esblygol o gydweithrediad rhwng gweithluoedd heddluoedd cymdogol, nid yw pob newid yn ffigurau'r gweithlu yn real o ran y gweithlu sydd ar gael. Byddai cynnwys cynghreiriau strategol ac/neu unedau troseddau cyfundrefnol (ROCU) yn enghraifft o hynt newidiadau dros gyfnod o amser ar sgiw. Felly mae angen ystyried cynnydd neu leihad llym dros amser yn ofalus gan y gallant gynrychioli newidiadau cyfrifyddu yn ymwneud â sut mae staff wedi eu dyrannu i heddluoedd, nid newidiadau real yn lefelau staffio.

Ar adeg yr archwiliad, roedd yr hinsawdd ariannol yn y dyfodol yn ansicr. Roedd sawl heddlu mewn sefyllfa ble nad oedd ganddynt gynlluniau wedi eu cadarnhau / cymeradwyo ar gyfer rhagolygon gweithlu.

Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau a ddarperir yn aml yn amcangyfrifon heb eu cadarnhau a ddarperir i gynorthwyo HMIC yn y rhaglen archwilio, ac ni ddylid eu hystyried i fod yn gynllun cadarn ar gyfer y tirlun plismona yn y dyfodol. Mae'r sylwadau hyn yn berthnasol i ffigwr 3 a ffigwr 4.

Ffigwr 5

Newid a amcangyfrifir mewn gwariant o 2011/12 i 2014/15, a newid a ragwelir mewn gwariant ar gyfer 2015/16 i 2019/20, yn erbyn llinell sylfaen GRE 2010 ar gyfer yr heddlu a Chymru a Lloegr

Mae ffigwr 5 yn dangos sut mae gwariant yr heddlu wedi newid yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant, o gymharu â'r cyfanswm newid mewn gwariant ar gyfer yr holl heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Ar gyfer 2015/16 ymlaen, cafwyd newid mewn methodoleg o gymharu â'r rhaglen Gwerthfawrogi'r Heddlu. Nid yw'r gofyniad arbedion bellach yn wariant refeniw gros (GRE) chwyddedig llai gwariant ond yn hytrach swm yr arbedion arfaethedig a defnydd o gronfeydd wrth gefn i bontio bwlch cyllid yn y flwyddyn. Mae'r newid hwn wedi ei ddynodi gan linell doredig fertigol ar y siart. Mae'r siart yn dangos arbedion arfaethedig (yn cynnwys defnydd o gronfeydd i bontio bwlch cyllid yn y flwyddyn) mewn blynyddoedd i ddod, wedi ei gyfrifo yn defnyddio'r arbedion arfaethedig ar gyfer cyllidebau cyflog ac nad ydynt yn gyflog a ddarparwyd i HMIC ar adeg casglu'r data (Chwefror 2015). Mae rhai heddluoedd wedi darparu ffigurau ar gyfer arbedion yr oeddynt wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar y pwynt hwnnw yn unig, tra bod eraill wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod cyfan. Felly nid yw gofynion arbedion bychan o reidrwydd yn cyfateb i her arbedion bychan yn y dyfodol.

Ffigwr 7

Dadansoddiad o gronfeydd sy'n weddill fel cyfran o wariant refeniw net yn y flwyddyn, a chyfanswm y cronfeydd sy'n weddill (£), ar gyfer 2014/15 i 2018/19

Yn ôl arolwg o gyfarwyddwyr ariannol a gwblhawyd gan y Comisiwn Archwilio¹⁰, ystyrir yn gyffredinol bod tri i bump y cant o wariant refeniw net yn lefel ddoeth o gronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo ar gyfer dibenion cynllunio seiliedig ar risg.

Sylwer y cedwir pob categori o gronfeydd wrth gefn ar gyfer yr heddlu/cwnstabiliaeth gan y PCC ar wahân i Ddinas Llundain a'r gwasanaeth heddlu Metropolitan, ble mae Corfforaeth Dinas Llundain a'r MOPAC yn cadw'r cronfeydd yn y drefn honno.

¹⁰ *Striking a balance: Improving councils' decision making on reserves*, Comisiwn Archwilio, Rhagfyr 2012. Ar gael o <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk>